**CYPE(6)-16-23 - Papur i'w nodi 2**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyddiad: 16 Mai 2023

Pwnc: Addysg Ddewisol yn y Cartref

Annwyl Jeremy,

Sylwaf fod canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ar addysg ddewisol yn y cartref wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar, a bod datganiad llafar wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mehefin.

Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor, rwyf wedi cael gohebiaeth gan bobl ledled Cymru ynghylch materion yn ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref, ac felly, hoffwn ofyn am ddiweddariad pellach ar y ddwy gyfres o Reoliadau drafft a oedd yn destun ymgynghoriad yn 2020 sef:

- Rheoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020

Roedd y datganiad ysgrifenedig ar 12 Mai a oedd yn cyd-fynd â'r canllawiau statudol yn nodi fod gwaith ar y gronfa ddata yn "bwrw ymlaen", ond byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael rhagor o eglurder ynghylch yr union amserlen ar gyfer hyn. Mewn gohebiaeth flaenorol atom ni ym mis Mai 2022, fe wnaethoch amlinellu'r bwriad i wneud y rheoliadau ym mis Medi 2022, mewn pryd ar gyfer eu rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2023.

Sylwais hefyd fod y datganiad ysgrifenedig yn nodi y byddai'r llawlyfr i addysgwyr yn y cartref yn cael ei gyhoeddi "cyn bo hir". A allwch roi syniad o pryd mae hyn yn debygol o fod?

Rwy'n sylweddoli efallai eich bod yn bwriadu rhoi rhagor o fanylion fel rhan o'r datganiad ar 6 Mehefin, ond pe gallech ddarparu rhai manylion cyn y datganiad hwnnw, byddwn yn gwerthfawrogi hynny'n fawr.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.